
# GOGLEDD CYMRU MAPPA



# Adroddiad Blynyddol 2016 - 2017


# Cyflwyniad

Mae HMPPS yng Nghymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau MAPPA er mwyn atal unigolion rhag dioddef niwed difrifol. Gwneud ein cymunedau'n ddiogelach yw prif flaenoriaeth HMPPS yng Nghymru, ac mae'r gwaith a wneir drwy MAPPA yn hollbwysig er mwyn gallu cyflawni hyn.

Mae gan ddioddefwyr a'r cyhoedd hawl i deimlo'n ddiogel a saff. Er nad yw byth yn bosib dileu risg yn gyfan gwbl, rhaid cymryd yr holl gamau posibl i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd rhag troseddwyr hysbys. Bwriad MAPPA yw dod ag asiantaethau at ei gilydd er mwyn helpu i reoli'r risg honno a chadw'r risg mor isel â phosibl.

Mae HMPPS yng Nghymru a'r holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â MAPPA yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y cyhoedd ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchiad o benderfyniad pawb sy'n gysylltiedig â hyn er mwyn sicrhau bod y maes gwaith pwysig hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rwy'n falch o'n staff, eu llwyddiannau blaenorol a'u hymrwymiad parhaus i sicrhau bod MAPPA yng Nghymru yn rhagori.





**Amy Rees**
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM
yng Nghymru

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Mae MAPPA (Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth) yn gyfres o drefniadau sy'n rheoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar mwyaf difrifol (Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA) yn unol ag adrannau 325 i 327B o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Maent yn dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaethau Carchardai ym mhob un o'r 42 Maes yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd i'r hyn y cyfeirir ato fel yr Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae dyletswydd ar nifer o asiantaethau eraill i gydweithio â'r Awdurdod Cyfrifol Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod sy'n gyfrifol benodi dau Gynghorwr Lleyg i eistedd ar bob Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA ochr yn ochr â chynrychiolwyr uwch o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu.

Mae'r cynghorwyr lleyg yn aelodau o'r cyhoedd sydd â dim cysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ond sy'n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; sy'n gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud yn agos â'r gwaith yn meddwl eu gofyn. Byddant hefyd yn gallu cyfrannu eu dealltwriaeth a'u safbwyntiau am y gymuned leol (mae'n rhaid iddynt fod yn byw yn y cymunedau hynny neu fod â chysylltiadau cryf â nhw).

## Sut mae MAPPA'n gweithio

Bydd troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu hadnabod a bydd gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu gan yr asiantaethau er mwyn gallu cyfrannu at asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y rhai hynny sy'n eu rheoli neu'n eu goruchwylio.

Yn y mwyafrif o achosion, dyna pa mor bell mae MAPPA yn mynd ond mewn rhai achosion fe benderfynir bod angen rheolaeth aml-asiantaeth weithredol. Mewn achosion o'r fath fe gynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd a fynychir gan yr ymarferwyr asiantaeth perthnasol.

Mae 3 categori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1 –** troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – (yn bennaf) troseddwyr treisgar sydd wedi'u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategorïau 1 neu 2 ond sy'n peri risg o niwed difrifol.

Mae tair lefel reoli yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; y rhai hynny sy'n cynnwys risg uwch o niwed difrifol fel arfer.

- Mae **Lefel 1** yn cynnwys rheolaeth gan asiantaeth gyffredin (h.y. dim cyfarfodydd nac adnoddau MAPPA);
- **Lefel 2** yw lle bydd angen ymyrraeth gan fwy nag un asiantaeth er mwyn rheoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System TG genedlaethol yw hon ar gyfer rheoli pobl sy'n peri risg difrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae'r defnydd o ViSOR yn cynyddu'r gallu i rannu gwybodaeth allweddol pan fydd troseddwyr risg uchel hyn yn symud, gan ehangu mesurau diogelu'r cyhoedd. Mae ViSOR yn caniatáu i staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Gwasanaeth Carchardai weithio ar yr un system TG am y ro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau u atal troseddu.

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA fel ar 31 Mawrth 2017 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 801 | 354 | - | 1155 |
| Lefel 2 | 10 | 41 | 21 | 72 |
| Lefel 3 | 1 | 2 | 3 | 6 |
| Cyfanswm | 812 | 397 | 24 | 1233 |

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 10 | 41 | 21 | 72 |
| Lefel 3 | 1 | 2 | 3 | 6 |
| Cyfanswm | 11 | 43 | 24 | 78 |

| | |
|---|---|
| **RSOau a gafodd rybudd/euogfarn am dorri'r gofynion gorchymyn hysbysu** | 11 |

| | |
|---|---|
| **RSOau sydd wedi cael eu gorchymyn hysbysu am oes eu dirymu ar ôl cais.** | 9 |

| Gorchmynion Cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **SHPOs, SHPOs gyda chyfyngiad teithio tramor a Nos a roddwyd gan y llysoedd** | |
| SOPOs | 144 |
| SHPOs gyd chyfyngiad teithio tramor | 0 |
| FTOs | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl ddaeth yn destyn gofynion hysbysu un dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol *SRO)** | 0 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 a ddychwelodd i'r ddalfa | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 4 | 14 | 5 | 23 |
| Lefel 3 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 6 | 15 | 5 | 26 |
| **Torri amodau SHPO** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 1 | - | - | 1 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm nifer y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth** | 132 |

Cyfrifwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio'r Amcangyfrif Poblogaeth Canol blwyddyn 2016 a gyhoeddwyd ar gyfer Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan eithrio'r rhai hynny o dan 10 oed.

# Esboniad o'r ystadegau yn y tablau

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2017, (h.y. ciplun). Mae gweddill y data yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.

**(a) Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA –** mae nifer o droseddwyr yn cael eu hystyried gan y gyfraith fel rhai cymwys ar gyfer rheolaeth MAPPA oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhywiol a threisgar penodol a/neu bod risg iddynt achosi niwed, er bod y rhan fwyaf ohonynt (92% eleni) yn cael eu rheoli gan drefniadau asiantaeth cyffredin (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO) -** troseddwyr rhyw sy'n gorfod hysbysu'r heddlu o'u henwau, eu cyfeiriad a manylion personol eraill a'u hysbysu hefyd o unrhyw newidiadau wedi hynny (cyfeirir at hyn fel "angen i hysbysu.") Mae methu â chydymffurfio â gofynion hysbysiad yn drosedd a allai olygu uchafswm o 5 mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar –** mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar sydd wedi eu dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy, neu'n cael eu cadw o dan orchmynion ysbyty. Mae'r categori hefyd yn cynnwys nifer fechan o droseddwyr rhyw nad ydynt yn cofrestru a throseddwyr sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio â phlant;

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill –** troseddwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y 2 gategori MAPPA arall ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg o achosi niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA.

**(e) Torri amodau trwydded –** bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned yn dilyn cyfnod o garchar o 12 mis neu fwy yn destun trwydded ag amodau'n perthyn iddi (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na fydd yr amodau hyn yn cael eu cydymffurfio â nhw, cymerir camau torri amodau a gellir rhoi'r troseddwr yn ôl yn y carchar.

**(f) Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) – (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad teithio tramor ychwanegol).**

Bwriad SHPO a SHPO dros dro yw i amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr sydd yn euog o drosedd rhywiol neu dreisgar, sydd yn peri risg o niwed rhywiol ir cyhoedd drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwyr hysbysu eu manylion i'r heddlu (fel y nodir yn Rhan 2 o Deddf 2003) drwy gydol y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod gorchymyn yn angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd (neu unrhyw aelod penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) tramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Mewn achos lle bu'r gorchymyn ei wneud ar gais sy'n sefyll can Brif Swyddog neu'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA), rhaid ir Prif Swyddog/NCA ddangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y math fodd ers ei collfarn i wneud y gorchymyn yn un angenrheidiol.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Y terfyn oedran isaf yw 10 mlwydd oed, sef yr oedran cyfrifoldeb troseddol ond pan fo'r diffynnydd o dan 18 oed dylai cais gorchymyn gael ei ystyried o dan amgylchiadau eithriadol.

**(g) Gorchmynion Hysbysu –** mae'r rhain yn gofyn bod troseddwyr rhyw sydd wedi eu cael yn euog dramor yn cofrestru â'r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risgiau maent yn eu bygwth. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn mewn perthynas â throseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu ymweld â'r DU.

**(h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad teithio tramor ychwanegol).**
Mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Risg o Orchymyn Niwed Rhywiol (ROSHO) a gelli'r eu gwened mewn perthynas â person heb euogfarn am drosedd rhywiol neu treisgar (neu unrhyw drosedd arall), ond sy'n achosi perygl o niwed rhywiol.

Gall SRO ei wneud yn y Llys Ynadon ar gais yr heddlu neu NCA lle mae unigolion wedi cyflawni gweithred o natur rhywiol a bod y llys yn fodlon bod y person yn peri risg o niwed ir cyhoedd yn y DU neu blant neu oedolion bregus tramor.

Gall SRO wahardd person rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo – mae hyn yn cynnwys atal teithio tramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol neu, mewn perthynas â theithio tramor, amddiffyn plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Rhaid i unigolyn sydd yn destun i SRO hysbysu'r heddlu o'u henw a'u cyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod i'r gorchymyn gael eu gwneud a hefyd rhoi

gwybod am unrhyw newidiadau i’r wybodaeth hon o fewn tri diwrnod.

Gall SRO barhau am o leiaf dwy flynedd ac nid oes ganddo amser uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau teithio tramor a fydd, os yn berthnasol, un para am uchafswm o bum mlynedd (ond gall ei adnewyddu).

Mae safon prawf troseddol yn parhau i fod yn gymwys, gall y person o dan sylw apelio yn erbyn gwneud y gorchymyn, ac mae’r heddlu neu’r person o dan sylw yn gallu gwneud cais i’r gorchymyn gael ei amrywio, ei adnewyddu neu eu rhyddhau.

Mae torri’r SRO yn drosedd, gyda’r gosb yn uchafswm o bum mlynedd o garchar. Pan fydd unigolyn yn torri eu SRO, byddant yn dod yn destun i’r gofynion hysbysu llawn.
Mae unigolyn sydd yn destun SRO bellach yn cael eu cofnodi ar ViSOR, fel Person allai fod yn Beryglus (PDP).

### (i) Gofynion hysbysu am oes eu dirymu ar gais.

Golygodd her cyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol fod mecanwaith yn ei le erbyn hyn sydd yn caniatáu i troseddwyr rhyw cymwys wneud cais am adolygiad o’u gofynion hysbysu.

Mae unigolion sydd yn destun hysbysu amhenodol ond yn gymwys i geisio adolygiad unwaith y byddant wedi bod yn destun i gofynion hysbysu amhenodol am gyfnod o leiaf 15 mlynedd ar gyfer oedolion a 8 mlynedd ar gyfer carcharorion ifanc. Mae hyn yn berthnasol o 1af Medi 2012 ar gyfer oedolion sy’n troseddu.

Ar 21ain Ebril 2010, yn achos R (*ar gais F a Angus Aubrey Thompson) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref [2010] UKSC 17*, cadarnhaodd y Llys Goruchaf penderfyniad cynharach y Llys Apêl gan wneud datganiad anghydnawsedd o dan adran 4 o Deddf Hawliau Dynol 1998 mewn perthynas â gofynion hysbysu am gofnod amhenodol o dan adran 82 o Deddf Troseddau Rhywiol 2003.
Mae hwn wedi ei gywiro yn rhinwedd Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (adfer) 2012 a gyflwynwyd i rhoi cyfle i droseddwyr sy’n destun hysbysiad amhenodol i geisio adolygiad; deddfwyd hwn ar 30ain Gorffennaf 2012.

Ni fydd unigolion yn dod ffwrdd o’r gofrestr yn awtomatig. Bydd yn ofynnol i unigolion cymwys sy’n ceisio adolygiad o’u gofynion hysbysu amhenodol gyflwyno cais i’r heddlu. Caent wneud hyn yn unig unwaith y byddent wedi cwblhau cyfnod gofynnol o fod yn destun darostyngedig i’r gofynion hysbysu (15 mlynedd o’r hysbysiad cyntaf yn dilyn eu rhyddhau o’r charchar am y trosedd mynegai ar gyfer oedolion a 8 mlynedd i bobl ifanc.

Bydd yr unigolion sy’n parhau i beri risg sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes os oes angen. Os bydd unigolion yn destun Gorchymyn Troseddau Rhyw Atal (SOPO) / Niwed Rhywiol Atal Gorchymyn (SHPO) rhaid i’r gorchymyn gael ei rhyddhau o dan adran 108 o Deddf Troseddau Rhywiol 2003 cyn i gais gael ei wneud am adolygiad o’u gofynion hysbysu amhenodol.

Am rhagor o wybodaeth, gweler yr adran y Swyddfa Gartref ar wefan gov.uk:
https://www.gov.uk/government/publications/sexual-offences-act-2003-remedial-order-2012

# Tudalen Lleol

## Cyfiawnder Ieuenctid

Yn hanesyddol mae'r System Cyfiawnder Ieuenctid wedi bod yn canolbwyntio ar leihau a rheoli risg, yn hytrach na ymchwilio mewn i cymhellion a ystyr y tu ôl i droseddau â arweiniodd at fesur cyson o ymddygiad pobl ifanc a'i safle cymdeithasol ymhlith eu cyfoedion (Almond, 2012). Mae gwrthdaro rhwng lles a dulliau cosbi wedi bod yn hollol-bresennol yng Nghyfiawnder Ieuenctid ers ei greu (Almond, 2012; Goldson & Muncie 2012), ac fel yr ystyriwyd gan Goldson a Muncie (2012), er gwaethaf effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ar wasanaethau eraill, mae Cyfiawnder Ieuenctid wedi parhau i adleisio'r gorffennol yn ei arfer.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yn genedlaethol o fewn cymhelliad a chyfarwyddeb y Gwasanaeth Cyfiawnder ieuenctid i fodel o ddatrysiad a rheoli achosion gwell. Yn hytrach na modelau ymyrraeth gosbol traddodiadol, bu newid i weithio mewn ffordd sy'n galluogi pobl ifanc i adnabod sut fyddai eu bywydau heb droseddu a chefnogi y newidiadau angenrheidiol fydd ei angen i gyflawni hyn. Gan ystyried egwyddorion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014), mae'n bwysig ystyried beth sy'n dod â phobl ifanc at sylw'r system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf,  sy'n amlwg yn comisiynu neu comisiynu posibl o droseddau. Er bod disgwyl i'r bobl ifanc hynny sydd o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u diwygio, mae disgwyliadau hefyd mai budd gorau'r plentyn fydd y prif ystyriaeth (UNCRC, Erthygl 3). Mae gweithredu Deddf Gwasanaeth a Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014) yn atgyfnerthu hyn, gan nodi y dylai'r holl ganlyniadau gael eu gyrru gan anghenion yr unigolyn sydd angen cymorth (Cyngor Gofal Cymru 2016). Ystyrir bod gwrthod yn *"broses o wrthsefyll troseddau ymhlith y rhai hynny oedd eisoes yn ymgymryd a phatrwm o droseddu"* (Arolygiaeth Prawf Em, 2016) ac yn aml mae'n dangos bod y person ifanc yn dychwelyd i gydbwysedd lle nad yw troseddu bellach yn bwrpasol i'r unigolyn.

Mae ymchwil yn dangos bod ymrwymiadau sy'n cael eu cyfeirio at lles person ifanc yn sylweddol fwy effeithiol wrth wella ansawdd bywydau a lleihau cyfraddau ail-droseddu nag y mae risgiau anffafriol neu gosbol (megis Henry, Henaghan, Sanders a Munford (2014); Prior a Mason (2010)) ac nad oedd un ateb cadarn ar gyfer atal pobl ifanc rhag droseddu. Yn hytrach, mae canlyniadau cadarnhaol yn fwy tebygol o ddigwydd drwy sefydlu perthynas arwyddocaol rhwng gweithiwr a pherson ifanc, perthynas lle mae'r person ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn a'u gwerthfawrogi a lle gallent lleisio eu dewis, pryder a dymuniadau yn hollbwysig.

Arweiniodd hyn at archwilio'r broses o gymhwyso'r Model Rheoli  Achosion Cynhwysfawr ( Enhanced Case Management - ECM) o fewn Cyfiawnder Ieuenctid. Mae ECM yn awgrymu y dylai gweithwyr proffesiynol flaenoriaethu datblygu y perthnasoedd ymddiriedol, diogel hyn a gall gynnig cyfle i unigolion ymgysylltu ar lefel bersonol gyda'u cefnogaeth gynyddu ymgysylltiad a sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y pen draw. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad o beilot ECM yn 2017 a dod i'r casgliad bod *"lefel uchel o ffyddlondeb gyda'r dull ECM...yn gyson ar draws TTIau"* (LICC tyd.57) a bod yr achosion hynny o fewn y cylch gorchwyl peilot yn gyffredinol wedi profi canlyniadau mwy cadarnhaol *"gan arwain at welliannau mewn perthynas, lefelau ymgysylltu uwch a chanlyniadau gwell i bobl ifanc"* (LICC, tud.57). Un o ganlyniadau pwysig y gwerthusiad oedd pwysigrwydd cyflwyno hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o'r model ECM i asiantaethau heblaw TTIau er mwyn galluogi rhwydweithiau cefnogol proffesiynol i gwmpas unigolion i weithio'n fwy cyfannol a theimlwyd gyda buddsoddiad pellach byddai'r model ECM yn *"gwella perthynas gweithio gyda phobl ifanc ac i ganolbwyntio ar anghenion sylfaenol (sydd, yn ei dro, yn debygol o gael effaith fwy parhaus ar droseddi a diogelwch y chyhoedd)"* (LICC, tud.59)

# Safle Cymeradwy Ty Newydd – Amgylchedd Galluogi

I ddyfynnu Coleg Brenhinol y Seiciatryddion “Mae ein amgylchedd gymdeithas yn cael effaith dwys ar y ffyrdd yr ydym yn byw ein bywydau. Mae natur ac ansawdd y berthynas yr ydym yn ei greu yn effeithio’n helaeth ar ein lles. Ceir hyd i perthynas sy’n effeithio ar ein bywydau mewn unrhyw amgylchedd yn y gweithle; mawr neu bach; gofal meddygol a cymdeithasol, sector gwasanaethau neu addysg. Maent yn gosod y diwylliant sefydliadol sy’n effeithio ar sut yr ydym yn trin y rhai o’n cwmpas, a’n hagwedd tuag at y sefydliadau yr ydym ynddo. Mae rhai sefydliadau’n creu amgylchedd cymdeithasol lle mae perthnasoedd galluogi yn ffynnu. Mae eraill yn eu hatal.”

Yn Mehefin 2016 daeth Safle Cymeradwy Ty Newydd y lleoliad cyntaf yng Nghymru i dderbyn y Wobr Amgylchedd Galluogi (Enabling Environment) gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Mae’r Wobr yn seiliedig at 10 safon; Perthyn, Ffiniau, Cyfathrebu, Datblygiad, Ymglymiad, Diogelwch, Strwythur, Grymuso, Arweinyddiaeth ac Agoredrwydd. Er mwyn ennill y Wobr rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod y deg safon hyn yn rhan o’r amgylchedd.

Agwedd pwysicaf y wobr yw’r angen i bawb o fewn yr amgylchedd fod yn rhan o’r daith, ac i ddeall nad gwella’r amgylchedd i un grŵp yw’r amcan ond gwella’r amgylchedd i bawb. Yn achos Ty Newydd nid oedd yn ymwneud a staff a preswylwyr yn unig, ond roedd yn ymwneud a phawb, gan gynnwys ymwelwyr i Ty Newydd o’r Gwasanaeth Prawf neu asiantaethau partneriaeth eraill.

Er mwyn cyflawni’r Wobr, roedd rhaid i staff a phreswylwyr weithio gyda’i gilydd i nodi’r hyn oedd yn digwydd yn y Safle Cymeradwy ac yna i nodi pa feysydd oedd angen eu gwella neu pa arferion newydd oedd angen eu datblygu.

Unwaith y nodwyd y meysydd oedd angen eu gwella neu eu datblygu gweithiodd staff a phreswylwyr gyda’i gilydd i ddatblygu syniadau ac arferion oedd yn cyflawni’r meini prawf penodedig. Mae’r gwaith yma ynddo’i hun wedi helpu i greu amgylchedd galluogi oherwydd, i ddyfynnu preswylydd o’r cyfnod “mae’n ymwneud â bod yn rhan o’r hyn sy’n cael ei wneud yn hytrach na pethau’n cael eu gwneud i ni.”

Fel staff, roedd angen i ni ofyn cwestiynau am y rhesymau pam ein bod yn gwneud pethau fel yr oeddem, ai oherwydd mai dyna’r ffordd orau neu ai oherwydd dyna sut y gwaned bob tro. I breswylwyr, roeddent yn meddwl am sut y gallent wella’r amgylchedd, nid yn unig i’w hunain ond hefyd ar gyfer preswylwyr y dyfodol.

Sefydlwyd Grŵp Preswylwyr a datblygwyd nifer o syniadau newydd megis system cyfaill ar gyfer preswylwyr newydd. Roedd gwelliannau yn wybodaeth â anfonwyd i breswylwyr newydd a chyfle i preswylwyr fynychu than o gyfarfodydd tîm, i gyd yn syniadau a weithredwyd o ganlyniad o fewnbwn gan breswylwyr.

O ganlyniad ir prosiect hwn, mae Ty Newydd wedi newid cryn dipyn. Mae rhwystrau a oedd wedi bod ar waith yn flaenorol rhwng staff a preswylwyr wedi’u torri lawr. Datblygwyd perthynas gweithio da. Mae gan preswylwyr rŵan ddealltwriaeth o’r system ac mae’r staff yn gwynebu llai o wrthdaro o ddydd i ddydd.

Mae datblygu rhaglen o weithgareddau sy’n cynnwys preswylwyr a staff mewn gweithgareddau cymdeithasol wedi arwain at well ddealltwriaeth o’r heriau sy’n gwynebu preswylwyr a staff. Mae’r gweithgareddau wedi helpu i greu amgylchedd lle mae siarad â staff am faterion yn cael ei annog a bod preswylwyr yn gwybod y cânt eu cefnogi yn hytrach na’u cosbi am fod yn agored ac yn onest.

Er mai datblygu llwyfan ar gyfer amgylchedd galluogi oedd prif nos y wobr, er mwyn ei gyflawni, mae angen portffolio o dystiolaeth ynghyd ag asesiad gan aseswyr allanol. Cynhyrchwyd tystiolaeth o luniau, datganiadau, cofnodion cyfarfodydd ac e-byst. Cymerwyd dwy flynedd o waith gan bawb. Mae creu a chynnal Amgylchedd Galluogi yn broses parhaus. Mae’n ymwneud â chynnal heriau newydd, rhoi cynnig ar syniadau newydd, gwrando ar bawb sy’n rhan o Ty Newydd a gweithio yn gyson i wella, cyflawni mwy ac ymdrechu am fwy.

# EMS a Monitro Electronig

Mae EMS yn cael ei gontractio gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddarparu gwasanaeth monitro electronig ledled Cymru a Lloegr. Mae ganddo ddyletswydd i gydweithio â threfniadau MAPPA.

Mae monitro electronig neu "tagio" yn offeryn sefydledig ac allweddol i asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan eu bod yn darparu dull cadarn ac effeithiol o fonitro amodau a gofynion unigolion sydd wedi eu dedfrydu i ddedfryd cymunedol, unigolion ar fechnïaeth hyd nes bydd gwrandawiad llys neu unigolion sydd wedi eu rhyddhau o carchar neu carchar ieuenctid ac yn ddarostyngedig i amodau trwydded.

O rhan achosion MAPPA, gall cyrffyw sy'n cael eu monitro'n electronig gyfrannu at strategaethau rheoli risg effeithiol:

- Cais ar unwaith – unwaith bydd EMS yn derbyn gorchymyn, mae tag yn gallu cael ei ffitio ar unigolyn yr un diwrnod.
- Yn darparu dull effeithiol o fonitro cydymffurfiaeth yr unigolyn a amodau'r cyrffyw.
- Mae'r asiantaethau cyfrifol yn cael eu hysbysebu ynn gyflyn gan EMS am unrhyw droseddau cyrffyw.
- Gall oriau cyrffyw eu teilwra i fynd i'r afael â phatrymau troseddu penodol (gweli'r adran "cyrffyw wedi'u targedu" isod).

Os bydd yr asiantaethau goruchwylio yn mynnu bod cyrffyw monitro electronig yn cael ei osod ar droseddwr, bydd EMS yn mynychu cyfarfodydd cynllunio i drafod y cyfeiriad lle bydd y troseddwr yn cysgu, ffiniau'r cyfeiriad, risg posibl i eraill yn y cyfeiriad a sut all oriau'r cyrffyw gael eu rheoli orau i gyd-fynd â gwaith, gofynion Crefyddol ac unrhyw ymrwymiadau eraill. Ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, gelli'r creu cyrffyw penodol fydd yn cwmpasu diwrnod cyntaf y cyrffyw, beth sy'n gyfystyr a torri'r cyrffyw i'r troseddwr a'r amserlenni a'r sianelau sydd ar gyfer adrodd unrhyw doriadau i'r asiantaethau goruchwylio.

Gall monitori electronig ei ddefnyddio yn rhan fwyaf o safleoedd byw gan gynnwys carafanau, tai cychod a hosteli. Yr unig ofyniad yw cyflenwad cyson o drydan. Mae'r offer yn gweithio ar y rhwydwaith symudol, ond yn yr achosion cynyddol prin lle nad oes derbyniad symudol, gellir newid trefniadau eraill.

Gelli'r cysylltu â'r Ganolfan monitor EMS 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar **08080 090 083** os oes gan rhywun unrhyw ymholiadau MAPPA neu geisiadau am wybodaeth.

### Cyrffyw wedi'u targedu

Mae rhan fwyaf o bobl yn dueddol o feddwl am cyrffyw fel gofyniad o 7yh – 7yb. Yn wir mae 75% o cyrffyw sy'n cael eu monitro gan EMS mewn grym 7 noson yr wythnos, sy'n ymestyn dros gyfnod o 12 awr. Fodd bynnag, gellir a dylai cyrffyw gael ei defnyddio yn fwy creadigol er mwyn helpu torri patrymau ac ymddygiad troseddau neu cefnogi gofynion eraill.

Gall oriau a diwrnodau cyrffyw eu torri fyny mewn unrhyw ffordd i dargedu ymddygiad troseddol. Drwy amrywio'r amser, diwrnodau a hyd y cyrffyw y mae'n bosib sefydlu ffordd mwy effeithiol o fynd i'r afael ac ymddygiad y troseddwr,

Mae'r enghreifftiau isod yn manylu achosion lle defnyddiwyd cyrffyw monitori electronig mewn ffordd targedu.

#### Cefnogi Gofynion Eraill

- Mae cyrffyw noson cyn sesiwn gwaith di-dal neu rhaglen adsefydlu yn gymorth i gydymffurfiaeth. Mae'n sicrhau bod y troseddwr yn eu cartref drwy gydol y nos ac felly yn fwy tebygol o gael noson dda o gwsg a mynychu'r sesiwn y diwrnod wedyn.

#### Amddiffyn Dioddefwyr

- Mewn achos o aflonyddu roedd Marc gyda cyrffyw rhwng 8yb a 10yb, 11:30yb a 1:30yh ac eto rhwng 4yh a 6yh. Rhoddodd hyn beth seibiant i'r dioddefwr a caniatáu iddi fynd i'w gwaith, cael ei chinio a cyrraedd adref yn ddiogel heb gael ei phoeni ganddo.

#### Amharu ar y troseddwr

- Fel rhywun oedd yn dwyn o siopau yn aml roedd cyrffyw gorchmynnol Mina yn lleihau y cyfle iddi ddwyn ond dal yn caniatáu iddi gyflawni ei ymrwymiad teuluol. Rhoddwyd hi ar dau gyfnod cyrffyw o 9yb i 2yh a 4yh i 9yh. Golygai hyn ei bod yn cael ei chadw ffwrdd o'r siopau ond yn rhoi amser iddi fynd a'i phlant i ac o'r ysgol.

- Am ei droseddau pêl droed, rhoddwyd cyrffyw i Lee oedd mewn grym yn unig ar ddiwrnodau gem ac ar benwythnosau.

#### Cyfeiriadau lluosog

- Rhoddwyd cyrffyw mewn dau gyfeiriad yn ystod yr wythnos a penwythnos i Jake sy'n

14 oedd. Roedd hyn yn gweithio o amgylch trefniadau magu ei rhieni.

**Parhad o ymrwymiadau cyflogaeth ac astudio**

- Mae Iram yn weithiwr shifft. Roedd dyddiau ac oriau'r cyrffyw yn amrywio yn ôl ei patrwm gweithio fel y gallai barhau i weithio trwy gydol ei dedfryd.
- Mae Tony yn gweithio yn ogystal a mynychu ysgol nos dwywaith yr wythnos. Bu i'r Ynadon amrywio ei gyrffyw fel ei fod yn dechrau am 10yh yn hytrach na 7yh ar y ddwy noson honno roedd o'n mynychu'r ysgol nos. Galluogodd hyn iddo barhau â'i astudiaethau.

Gall cyrffyw sy'n cael eu rheoli gan dechnoleg fonitro electronig presennol, a'i ddefnyddio'n briodol helpu ddod a sefydlogrwydd, strwythur a goruchwyliaeth, tra'n parhau u fod yn ddull cosb.

Drwy targedu gofalus o'r oriau cyrffyw a thrwy amrywio'r amserau, dyddiadau a hyd y cyrffyw gall fod hyd yn oed yn fwy effeithiol.

# Uned Cyswllt y Dioddefwr

Pan fo troseddwr yn ddarostyngedig i MAPPA lefel 2 neu 3, rhaid i'r Swyddog Cyswllt y Ddioddefwr gynrychioli barn y dioddefwr try gymryd rhan weithredol yn y cyfarfodydd MAPPA. Pan nad yw'n bosib mynychu y cyfarfod mae rhaid ir swyddog cyswllt y dioddefwr gyflwyno adroddiad cynhwysfawr o farn y dioddefwr, gan gynnwys gwybodaeth am risg a chynrychiolaeth ynghylch amodau'r drwydded. Rhaid i'r Rheolwr Troseddau ar Swyddog Cyswllt y Dioddefwr gyfathrebu'n effeithiol ynghylch asesu a rheoli'r troseddwr.

Mae diogelwch y dioddefwr, atal ail-erledigaeth a osgoi creu dioddefwyr newydd yn hanfodol i asiantaethau MAPPA ac i ddiogelu'r cyhoedd. Mae diogelwch dioddefwyr yn un o bedwar piler MAPPA ac mae'n hanfodol i greu cynllun rheoli risg i unigolyn sydd yn peri risg uchel. Unwaith caiff troseddwr ei ddedfrydu un agwedd o waith y swyddog cyswllt y dioddefwr yw i ymweld a'r dioddefwr mewn awyrgylch diogel ac egluro y ddedfryd y derbyniodd y troseddwr. Yn y cyfarfod hwn, bydd trafodaeth ynglŷn a dyddiadau arwyddocaol o'r ddedfryd, diogelwch ac amodau trwydded posibl.

Mae'n hanfodol i benderfyniadau asiantaethau MAPPA gael eu creu drwy ymgysylltu'n effeithiol a dioddefwyr blaenorol a chyfredol y troseddwr a lle bo'n briodol gydag unigolion a allai fod mewn perygl gan y troseddwr yn y dyfodol.
Rhan hanfodol o rôl y swyddog cyswllt y dioddefwr yw cydweithio ag asiantaethau partneriaeth. Mae'r swyddog cyswllt y dioddefwr yn aml yn cynnal ymweliadau i'r dioddefwr gyda'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n fuddiol iawn wrth rheoli risg unigolion. Rydym yn gweithio yn agos iawn gyda'r Rheolwr Troseddwyr a staff yr Adeilad Cymeradwy i sicrhau bod trosglwyddiad diogel o'r carchar i'r Adeilad Cymeradwy a darparu gwybodaeth y tu allan i oriau gwaith ar achosion pan fo'r troseddwr yn dianc.

# HMP Berwyn

Agorwyd Berwyn ym Mis Chwefror 2017. Yr oedd yn ddigwyddiad a ddisgwylir yn eiddgar amdano yn dilyn misoedd a blynyddoedd o gynllunio. Fel y carchar cyntaf i'w ddyfarnu i'r Sector Cyhoeddus ers rhai blynyddoedd roedd gan Uwch Dim Rheoli Berwyn weledigaeth i Berwyn fod yn flaenllaw yn y Gwasanaeth Carchardai modern, gan geisio amddiffyn y cyhoedd a lleihau ail-droseddu mewn ffordd gwahanol iawn.

Croesawyd y dynion cyntaf i Berwyn ar 28ain Chwefror, daethant o amrywiaeth o sefydliadau. Roedd pob dyn wedi cymryd yr amser i ysgrifennu atom i ofyn am drosglwyddiad. Wedi clywed am Berwyn drwy'r sioeau teithiol, roedd diddordeb o bob rhan o'r ystâd carchar.

Yr hyn sy'n gwneud Berwyn yn wahanol iawn i sefydliadau eraill yw ei gwerthoedd, diwylliant ac ethos. O'r cychwyn wrth greu gweledigaeth Berwyn roedd adsefydlu yng nghanol popeth.

Mae ein tri blaenoriaeth strategol o Ddiwylliant Adsefydlu, Egwyddorion Normoldeb ac "Making Big Feel Small" yn ategu'n gyfan gwbl i adsefydlu y dynion, fel y mae ein gwerthoedd sefydliadol.

Rydym yn defnyddio iaith ac ymddygiad adsefydlu, ac yn cynnal egwyddorion Cyfiawnder Gweithdrefnol ym mhopeth a wnawn. Mae ein poblogaeth o 2,106 wedi ei rhannu yn dri tŷ o wyth cymuned, lle mae'r strwythur colegol yn amlwg iawn. Mae ein cyfundrefn, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn adlewyrchu'r hyn sydd ar gael yn ein Cymuned i ategu egwyddorion normaledd. Maent oll yn ceisio helpu dynion i gael eu hadfer a'u hadfer yn eu cymuned yn ddiogel.

Mae gennym 31 o arferion gwerthoedd yr ydym yn eu harfer bob dydd sydd yn ein galluogi i:
**G**werthfawrogi eich gilydd a dathlu cyflawniadau
**W**eithredu gyda gonestrwydd a siaradwch y gwir bob tro
**E**drychwch i'r dyfodol gyda uchelgais a gobaith
**R**hoi pwyslais ar gynnal tegwch a chyfiawnder ym mhopeth a wnawn
**T**eimlo pwysigrwydd y feddylfryd o cadwch ati
**H**ybu a chroesawu iaith a diwylliant Cymraeg

Ar ôl bod ynn agored am chwech mis yn awr, byddai'n deg dweud ein bod wedi cael ein heriau. Nid yw agor carchar newydd yn gwbl ddiffygiol. Gyda dros 500 o ddynion o dan ein gofal, mae Berwyn yn sefydliad gweddus a diogel. Yr ydym yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth gyda llawer o asiantaethau i gyflawni i profiad carcharol gwahanol iawn.

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein:

www.gov.uk

## Cysylltwch â ni


PGC Richard Debicki
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu, Glan Y Don,
Bae Colwyn
LL29 8AW
Ffôn: 0300 330 0101

Andy Jones
Cadeirydd MAPPA SMB Gogledd Cymru
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Prawf Cymru
Conway Road,
Bae Colwyn
LL29 7AA
Ffôn: 01492 530 600

Liz Swinden
Cydlynydd MAPPA
Heddlu Gogledd Cymru
Uned Diogelu'r Cyhoedd
SSU Llanelwy
Llanelwy
LL17 0HW
Ffôn: 01745 588 649


National Probation Service

HM PRISON SERVICE

HEDDLU GOGLEDD CYMRU Gogledd Cymru diogelach | NORTH WALES POLICE A safer North Wales